

Enw'r Ymgeisydd	Rhif y Ganolfan	Rhif yr Ymgeisydd

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch



WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

311/51

BIOLEG

MODWL BI1

A.M. DYDD LLUN, 5 Mehefin 2006

(1 awr 30 munud)

I'r Arholwr yn unig

Cyfanswm Marciau	
---------------------	--

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR


Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.
Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag yn y llyfrynn hwn.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
Atgoffir chi bod angen Cymraeg da a chyflwyniad trefnus yn eich atebion.
Bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn effeithio ar y marciau a roddir.
Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

1. Mae'r diagram yn dangos cell a welir trwy ddefnyddio microsgop electron.



- (a) (i) Enwch yr adeileddau sydd wedi'u labelu A i E. [5]

A

B

C

D

E

- (ii) Gan ddefnyddio'r llythyren briodol, enwch [2]

un adeiledd sy'n **bresennol** mewn cell brocaryotig

un adeiledd sy'n **absennol** o gell brocaryotig

- (b) Gan gyfeirio at y diagram:

- (i) Eglurwch sut mae'n bosibl dweud mai dyma'r golwg a welir trwy ddefnyddio microsgop electron yn hytrach na microsgop golau. [2]
-
.....

- (ii) Nodwch pa **ddau** o'r adeileddau **A** i **E** a geir mewn niferoedd mawr mewn cell sydd â lefel uchel o actifedd metabolig? Rhowch reswm dros **bob** dewis. [2]


.....

(Cyfanswm 11 marc)

2. (a) Ar wahân i bresenoldeb atalyddion a chrynodiad swbstrad, nodwch **dair** ffactor sy'n effeithio ar gyfradd adwaith a reolir gan ensymau. [3]

.....

- (b) Mae'r graff yn dangos sut mae cyfradd adwaith sydd wedi ei gatalyddu gan ensymau yn amrywio gyda chrynodiad swbstrad, pan fydd atalydd cystadleuol ac atalydd anghystadleuol yn effeithio arno.



- (i) Pa linell sy'n dangos yr atalydd cystadleuol? [1]

- (ii) Rhowch reswm dros eich dewis yn (b)(i). [1]

- (iii) Eglurwch sut mae atalydd cystadleuol yn gweithio. [3]


.....

.....

(Cyfanswm 8 marc)

Trosodd.

3. Mae'r diagram yn dangos adeiledd protein. Mae'r llythrennau **A** i **C** yn dangos tri math o fond a geir mewn protein.



(a) (i) Nodwch enw'r math o fond a geir yn adeiledd cynradd protein. [1]

.....

(ii) Nodwch enwau'r mathau o fondiau a nodir gan **A** i **C**. [3]

A

B

C

(b) Mae'r ardal a nodir gan **X** ar y diagram yn ffurfio rhan o adeiledd eilaidd protein.

(i) Nodwch yr enw a roddir i'r ffurf hon o adeiledd eilaidd. [1]

.....

(ii) Sut mae'r ffurf hon o adeiledd eilaidd yn cael ei dal at ei gilydd? [1]

.....

.....

.....

(iii) Nodwch enw ffurf bellach o adeiledd eilaidd. [1]

.....

(c) Nodwch y lefel uchaf o adeiledd protein a ddangosir yn y diagram. [1]

(ch) Mae moleciwl cellwlos wedi'i wneud o nifer fawr o unedau monosacarid.





(i) Enwch y monosacarid a'i ffurf. [2]

(ii) Disgrifiwch sut mae dau fonosacarid wedi'u huno â'i gilydd. [2]

(iii) Eglurwch sut mae adeiledd cellwlos yn ei wneud yn addas i'w ddefnyddio mewn cellfuriau planhigion. [2]

(Cyfanswm 14 marc)

4. Mae ffotograffau **A** i **D** isod yn dangos y pedwar cam ym mhroses mitosis.



- (a) Rhowch lythrennau'r diagramau hyn yn y dilyniant cywir i ddangos ym mha drefn y mae'r camau'n digwydd. [2]
-

- (b) Enwch y cam yn ystod mitosis lle mae'r canlynol yn digwydd.

(i) Gellir gweld cromatidau am y tro cyntaf gan ddefnyddio microsgop golau. [1]

.....

(ii) Mae'r amlen niwclear yn diflannu. [1]

.....


(iii) Mae parau o gromatidau yn ymgysylltu â ffibrau eu gwerthyd ar y cyhydedd, ar eu centromerau. [1]

.....

(iv) Mae cromatidau yn troi'n gromosomau. [1]

.....

- (c) Mae ffotograff E yn dangos cell yn ystod rhan o gylchred y gell a elwir yn rhyngffas. Yn aml, gelwir hwn y ‘cam gorffwys’.



Eglurwch pam mae'n anghywir ystyried bod y gell yn 'gorffwys' yn ystod rhyngffas. [3]

.....
.....
.....
.....

- (ch) Beth yw arwyddocâd mitosis a pham mae'n bwysig i blanhigion? [3]
-
.....
.....
.....

- (d) Defnyddir meiosis i gynhyrchu gametau ar gyfer atgenhedliad rhywiol mewn mamolion.

Rhowch **dair** ffordd y gall meiosis arwain at amrywiad yn yr epil. [3]


.....
.....
.....

(Cyfanswm 15 marc)

5. Rhoddyd stribedi o epidermis nionyn/winwnsyn oedd â dimensiynau eithaf cyfartal mewn hydoddiannau swcros o wahanol grynnodiadau. Ar ôl 20 munud, tynnwyd y stribedi o epidermis allan o'r hydoddiannau a chyfrifwyd y newid ym mäs y stribedi ers cychwyn yr arbrawf. Dangosir y canlyniadau yn y tabl isod.

<i>Crynnodiad y swcros/M</i>	<i>Newid ym mäs/%</i>
0.15	+4
0.20	+3
0.25	+2
0.35	-2
0.40	-4
0.50	-22
0.55	-37


- (a) (i) Plotiwch graff i ddangos yr amrywiad yn y newid mewn mäs yn ôl crynnodiad y swcros. [4]



- (ii) Defnyddiwch eich graff i gyfrifo crynnodiad y swcros lle nad oes unrhyw newid mewn mäs. Ysgrifennwch y gwerth ar y llinell isod. [1]

- (iii) Eglurwch, yn nhermau potensial dŵr, pam nad oes unrhyw newid ar y pwynt hwn. [3]
-
.....
.....
.....

- (b) Mae'r graff isod yn dangos amsugniad iōnau potasiwm trwy wreiddflew planhigyn grawnfwyd ifanc a gadwyd mewn hydodiannau awyrog oedd yn cael eu cadw ar ddau dymheredd gwahanol. Ar ôl 70 munud, ychwanegwyd potasiwm cyanid at yr hydodiannau ar y ddau dymheredd.



- (i) Sut mae'r wybodaeth a roddir yn dangos bod y gwreiddflew yn cymryd yr iōnau i mewn trwy **gludiant actif?** [3]
-
.....
.....
.....

- (ii) Eglurwch pam mae potasiwm, ar dymereddu isel, yn dal i gael ei gymryd i mewn ar ôl ychwanegu potasiwm cyanid. [1]
-
.....
.....

(Cyfanswm 12 marc)
Trosodd.

6. Atebwch un o'r cwestiynau canlynol.

Rhaid anodi unrhyw ddiagramau a ddefnyddiwr yn eich ateb yn llawn.

Naill ai, (a) (i) Disgrifiwch sut y cynhyrchrir DNA ailgyfunol yn ystod y broses o wneud inswlin. [7]

(ii) Amlinellwch y problemau a geir wrth ddefnyddio technoleg DNA ailgyfunol. [3]

Neu (b) Disgrifiwch sut y caiff dilyniant bas genyn ei droi yn adeiledd cynradd protein.

[10]
